EISTEDDFOD GADEIRIOL TREFEGLWYS 2026

Cynhaliwyd yr 109 Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys ar ddydd Sadwrn Hydref 17eg yn y Neuadd Goffa yn Nhrefeglwys.
Y Beirniaid eleni oedd Cerdd – Trystan Lewis, Llanfair Talhaearn, Llefaru – Eurig Salisbury Aberystwyth, Ella Witticase, Trefeglwys bu'n beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w gweld yng nghefn y Neuadd y Beirniaid yn yr adrannau yma oedd, Crefftau a Gwniadwaith – Pippa Sillitoe Trefeglwys gydag Eryl Douglas Jones, Trefeglwys yn Beirniadu'r Llawysgrifen.
Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng ngyfarfod y prynhawn gyda hyd at pymtheg o blant mewn rhai cystadleuthau, cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol lleol, Ysgol Dyffryn Trannon. Ennillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan y ddawnswraig Elin Williams a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod y pnawn gan Mabon Davies. Eleni cafwyd tarian er cof am Hefin Bennett gan eu deulu, un a fu yn arweinydd yr eisteddfod am hanner can mlynedd, yr ennillydd oedd y llefarydd gorau Mari Wyn Edwards o'r Fan mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r tri ohonynt. Gruff Gittoes ennilloddd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu "Lliwiau"
Bethan Lloyd Owen ag Anwen Orrels fu yn cadw trefn ar cystadleuthau'r llwyfan gyda Fflur Davies, Llidiartywaen yn cyfeilio yng ngyfarfod y prynhawn a Sian Davies, Penybontarogwr yng ngyfarfod yr hwyr. Eleni cyflwynwyd cwpan newydd a gyflwynwyd gan teulu y diweddar Alun Watcyn Bunford. Bu Alun yn aelod brwd o'r pwyllgor dros llawer o flynyddoedd yn cyn cystadleuydd ac wedi canu can y cadeirio yn yr eisteddfod am flynyddoedd. Ennillodd Ella Foskett y gwpan am ei ddatganiad o unawd allan o sioe gerdd.
Ennillydd Tlws Coffa Gwynfryn Evans am y datganiad gorau yn yr adran cerdd oedd Greg Jenkins o'r Drenewydd am ei ddatganiad ar y piano yn yr unawd offerynol agored
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun Paradwys, daeth tair cerdd i fewn i'r gystadleuaeth gyda Megan Richards o Aberaeron yn ennill mae Megan yn Fardd amryddawn wedi cystadlu llawer iawn yn Eisteddfod Trefeglwys dros y blynyddoedd ar llawer o gystadleuthau y tro cyntaf iddi ennill cystadleuaeth y Gadair. Bu'r gerdd yn son am y capel unigryw yn Soar y Mynydd ei hatgofion o grwydro yno yn ystod ei magwraith yn Llanddewi Brefi. Lle tawel unigryw i gynnal y Ffydd.

Y Beirniad Euirig Salisbury bu yn arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ol y feirniadaeth cyrchwyd y Bardd Buddugol i'r llwyfan gan Susan Williams a Joyce Smithies. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen gydag Owen Lloyd Jones yn canu can y cadeirio bu Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.
Yn ystod y noswaith bu Iwan Owen cadeirydd pwyllgor yr eisteddfod yn gwneud sylw arbennig i'r rhai a gollwyd yn ddiweddar iawn sef y cymeriad lliwgar Gareth Jenkins fu yn un o arweinwyr yr eisteddfod am llawer o flynyddoedd ac hefyd cydymdeimlo gyda Bethan Antur oedd i fod i feirniadu yr adran cerdd a gollodd ei gwr tair wythnos cyn yr eisteddfod.
Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Dr Andrew Griffiths o Burgess Hill, Sussex.Yn enedigol o Bodaioch Hall aeth Andrew ymlaen i ymuno gyda'r heddlu gan gael swydd uchel iawn cyn ymddeol, mae nawr wedi sefydlu busnes gyda'i wraig Jackie sy'n ymchwilio i mewn i dwyll. Bu yn son am ei fagwraith a'i atgofion o mynychu'r Eisteddfod, a'r hyder mae'r plant yn datblygu wrth sefyll ar y llwyfan. Dymunodd pob lwc i'r Eisteddfod yn y dyfodol.
Yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau. Y plant o Ysgol Dyffryn Trannon Trefeglwys

Unawd oed Meithrin	1. Felicity Roberts
	2. Leisa Davies
	3. Macsen Sargant
Llefaru oed Meithrin	1. Leisa Davies
	2. Macsen Sargant
	3. Alys Howells
Unawd Bl 1 a 2	1. Rosie Richards
	2. Eliza Taylor, Rhiw Bechan
	3. Iris Derby
Llefaru Bl 1 a 2	1. Julia Pestana
	2. Myla Woodward
	3. Cadi Davies
Unawd Bl 4 ag Iau	1. Alys Jerman Ysgol Dafydd Llwyd
	2. Mari Wyn Edwards, Y Fan
	3. Ynyr Davies
Llefaru Bl 4 ag Iau	1. Elsie Derby
	2. Mari Wyn Edwards
	3. Harper Powell
Unawd Bl 6 ag Iau	1. Mabon Davies
	2. Elin Williams
Llefaru Bl 6 ag Iau	1.Mabon Davies
	2. Elin Williams
Unawd Piano	1. Mabon Davies
	2. Ynyr Davies
Cor Plant	1. Cor 1 Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Cor 2 Ysgol Dyffryn Trannon
Parti Cydlefaru	1. Parti Dyffryn Trannon
Unawd Offerynol	1. Ynyr Davies
Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ag Iau	1. Elin Williams

Unawd dan 15	1. Ieuan Hacker, Y Drenewydd
	2. Mari Edwards, Y Fan
Llefaru dan 15	1. Mari Edwards
Unawd dan 18	1. Ieuan Hacker
Can Werin dan 18	1. Ella Foskett, Penstrowed
	2. Mari Edwards
	3. Alys Jerman Y Drenewydd
Deuawd dan 18	1. Mari ag Alys
Unawd Offerynol dan 18	1. Martha Jones Deklerk, Casgwent
Unawd o Sioe Gerdd	1. Ella Foskett
	2. Owen Lloyd Jones Clatter
	3. Ieuan Hacker
Llefaru i Ddysgwyr	1. Pippa Sillitoe, Trefeglwys
Canu Emyn dros 60	1. Maiann Jones Powell Llandre
	2. Owen Lloyd Jones
	3. Aled Jones Commins Coch
Unawd Offerynol	1. Greg Jenkins Y Drenewydd
	2. Martha Jones Deklerk
Cor	1. Vocalease Berriew

	2. New Dynamics Y Drenewydd
	3. Cor Arwystli
Her Unawd	1. Mariann Jones Powell
Her Lefaru	1. Maria Evans Caerfyrddin
Unawd Gymraeg	1. Maiann Jones Powell
	2. Aled Jones Commins Coch
	2. Owen Lloyd Jones
Darllen o'r Beibl	1. Bethan Lloyd Owen Llanidloes
	2. Megan Richards Aberaeron
	3. Maria Evans
Can Werin	1. Owen Lloyd Jones
	2. Mariann Jones Powell

Cerdd y Gadair	Megan Richards Aberaeron
Englyn	Alan Iwi Didcot
Cyfansoddi Emyn,	Megan Richards
Can Ddigri	Dyfan Phillips Rhuthun
Stori Fer	Martin Coleman Derby
Limrig	Megan Richards a Stephen Mason Clunderwen
Cyfansoddi Emyn Don	Alun Rhys Williams Aberteifi